**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Cyfarfod Grŵp Ecosystem**

**Rhostiroedd a Glaswelltiroedd yr Iseldir**

**Fferm Berthlwyd, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

**25ain Mehefin 2015**

**COFNODION DRAFFT**

## Yn bresennol

| | | |
|---|---|---|
| Helen Buckingham (Cadeirydd) | HB | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Jan Sherry | JS | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Stuart Smith | SS | Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| Dave Rogerson | DR | Llywodraeth Cymru |
| Holly York | HY | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Joe Daggett | JD | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Mike Howe | MH | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Jess Whitehead | JW | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Rebecca Price | RP | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Bradley Welch | BW | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Arwel Williams | Llywodraeth Cymru |
| Sarah Mellor | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Pendro |
| Amy Vanstone | RSPB Cymru |
| Colin Cheesman | Plantlife |
| Caroline Wilson | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Sinead Lynch | Bumblebee Conservation |
| Liz Jones | CNC |

## 1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd HB groeso cynnes i bawb a oedd yn bresennol.

## 2. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir o'r cyfarfod a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan PBC.

| |
|---|
| **Cam gweithredu 1.** PBC (**HY**) i lwytho cofnodion mis Tachwedd y cytunwyd arnynt i fyny i wefan PBC. |

Mae mwyafrif y camau gweithredu o gyfarfodydd mis Mehefin a mis Tachwedd wedi cael eu cwblhau erbyn hyn, ac mae'r rhai sy'n weddill un ai'n cael sylw drwy eitemau ar yr agenda neu'n dal ar y gweill. Gweler isod:

*Cariwyd ymlaen o fis Mehefin:*

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu 4.** Rhoi sylw i faterion yn ymwneud â grug a llosgi yng Nghymru: JS i gysylltu â Davey Martyn/Caryn Le Roux i drefnu cyfarfod | **HY** i drefnu gyda Tom Henderson (LlC), JS a HB. |
| **Cam gweithredu 5.** Diwrnodau arddangos gwaith rheoli tir – y posibilrwydd o gysylltu hynny â diwrnodau rheoli Glastir. JS i gysylltu ag Arfon Griffiths i drafod | Ystyried ffynonellau ariannu ar gyfer diwrnodau rheoli. Yn bwysig cysylltu hyn â phryfed peillio. **JS** i fynd ar drywydd hyn |

*Camau gweithredu o fis Tachwedd:*

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu 6.** Bylchau Tystiolaeth: **JS** i symud 'Adolygiad Annibynnol o Waith Ail-greu Cynefinoedd' y Grŵp Ecosystem yn ei flaen | Ar waith. **JS** i ddarparu Bwlch Tystiolaeth i'r grŵp |
| **Cam gweithredu 7.** Mapio Cynefinoedd â Blaenoriaeth: **HY** i asesu'r gweithgarwch sy'n digwydd mewn ardaloedd â blaenoriaeth, o safbwynt rhostir a glaswelltir yr iseldir, gan ddefnyddio'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth | Ar waith |
| **Cam gweithredu 12. Cyfarfod Cymru Gyfan – y Frân Goesgoch – HY** i benderfynu ar ddyddiad a gwneud y trefniadau ar gyfer cyfarfod gyda **AV/SM** | Cyfarfod yn cael ei drefnu ar hyn o bryd. Rhestr gwahoddedigion – sicrhau ein bod yn cwmpasu poblogaethau mewndirol, a'r holl ardaloedd arfordirol (o'r Gogarth i Benrhyn Gŵyr). HY i ddarparu rhestr o'r gwahoddedigion i HB, JS ac SS. |
| **Cam gweithredu 14**. Cymysgeddau o hadau | Colin Cheesman yn methu bod yma heddiw. |

| | |
|---|---|
| estron: **CC** i drafod gyda Trevor Dines, Plantlife, er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, a dosbarthu'r polisi pan fydd ar gael | **HY** i gysylltu â **CC** am ddiweddariad. |

**Sesiynau hyfforddiant Asesu Effeithiau Amgylcheddol** (cam gweithredu 8 mis Mehefin) – bydd HB yn codi mater sesiynau hyfforddiant i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda DR ar gyfer yr hydref/gwanwyn nesaf.

**Rheoli Gweirgloddiau** (cam gweithredu 9 mis Mehefin) – Parhau ag ymchwil i reoli ac adfer gweirgloddiau yng Nghwm Elan. SS i gysylltu â Chwm Elan i drafod gwaith dilynol posibl. Cynnig achos o blaid arolwg gweirgloddiau tymor hir, i CNC/PBC efallai – ddim yn ofynnol ar hyn o bryd. SS i gylchredeg adroddiad CNC ar gynllun rheoli cadwraethol ar laswelltiroedd Cwm Elan i'r grŵp. Awgrymodd HB Gwm Elan a Phumlumon fel lleoliadau ar gyfer ymweliad maes y grŵp yn haf 2016.

Byddai'n fuddiol cynhyrchu dogfen tudalen o hyd ar Brosiectau Rheoli Gweirgloddiau i ddwyn ynghyd ddolenni at wahanol brosiectau a chanllawiau. Defnyddio'r term 'gweirglodd' yn ei ystyr ehangaf (dolydd blodeuog/rhosydd).

| |
|---|
| **Cam gweithredu 2: SS (drwy HY)** i gylchredeg yr adroddiad ar reoli cadwraethol yng Nghwm Elan. |
| **Cam gweithredu 3: HY/JS/HB/SS** i ymchwilio i ymweliad maes haf 2016 â Chwm Elan a Phumlumon |
| **Cam gweithredu 4: HB/SS/JS** i gynhyrchu dogfen un dudalen ar Reoli Gweirgloddiau gyda dolenni at brosiectau a chanllawiau. |

3. **Gweithdy Adfer**

Mae Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adfer fel rhan o'r gwaith o sefydlu'r Cynllun Adfer Natur. Cyn hyn, cynhaliodd Grŵp Cadeiryddion PBC weithdy Adfer. Aeth HB i'r naill a'r llall.

- Targed Aichi 15: adfer o leiaf 15% o ecosystemau sydd wedi diraddio
- Canolbwyntiodd Grŵp Cadeiryddion PBC ar sefydlu beth rydym yn ei olygu wrth ddefnyddio'r term 'adfer'
- Mae angen i LlC ddarparu fframwaith a rhoi meini prawf ar gyfer arfer da
- Mae gwaith adfer yn mynd rhagddo'n barod ac yn gwireddu nifer o fuddion. Ffocws ar gyrraedd targedau wrth wneud gwaith adfer –mawndiroedd? Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Cymru ar gyfer Mawn y llynedd, gyda rhaglen rheolaeth ffafriol erbyn 2020, ac ymdrechion adfer sy'n parhau.

- Grŵp Adfer Gorchwyl a Gorffen, Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru, dan arweiniad Dai Harris a Steve Spode. Cyfarfu'r grŵp ar 2il Mehefin. Canolbwyntiodd y gweithdai yn y cyfarfod ar gytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r hyn rydym yn ceisio'i gyflawni drwy waith adfer, gan edrych ar fecanweithiau gweithredu – diffinio ac adeiladu ar arfer da.
- A all CNC ddarparu mapiau o'r ardaloedd sydd â blaenoriaeth o ran gwaith adfer – cysylltu rhwydweithiau CNC ac Ardaloedd â Blaenoriaeth PBC? Mae'n bwysig sicrhau bod mapiau ardaloedd Rhostir a Glaswelltir yr Iseldir yn gyfredol (http://www.biodiversitywales.org.uk/Gweundir-a-Glaswelltir-yr-Iseldir).
- Cynhelir cyfarfod nesaf Bwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru ar 1af Gorffennaf.
- Adolygiad o'r gwaith ail-greu? Byddai papur Gwersi a Ddysgwyd ar biblinellau yn Eryri (Caroline Wilson yn ei baratoi) yn ddefnyddiol

| |
|---|
| **Cam gweithredu 5:** Meysydd â Blaenoriaeth - **PAWB** anfon syniadau am ddiweddariadau, ychwanegiadau, etc. posibl at JS |
| **Cam gweithredu 6: HY** i gysylltu â CW ynglŷn â phapur gwersi a ddysgwyd ar biblinellau yn Eryri |
| **Cam gweithredu 7: HY** i gylchredeg papurau'r gweithdy Adfer |

4. **Coed Meryw** (Jan Sherry, CNC)

Fel rhan o waith CNC ar iechyd planhigion, cynhaliwyd arolygon o goed Meryw gan chwilio am arwyddion o glefyd *Phytophthora*. Ni chanfu'r arolygon unrhyw arwydd o'r clefyd mewn coed Meryw yng Nghymru. Cafwyd adroddiadau am goed Meryw wedi'u heintio yn Lloegr a'r Alban. Cynhyrchodd yr Alban ganllawiau'n ddiweddar ar 'Planting juniper in Scotland: reducing the risk from Phytophphtora austrocedrae' . Mae'r canllawiau'n defnyddio strategaeth wedi'i seilio ar barthau ar draws yr Alban. Mae'r parthau wedi'u seilio ar faint y boblogaeth coed meryw a lefel y gwaith rheoli cadwraethol (e.e. plannu) sy'n ofynnol. Mae coed meryw yng Nghymru yn tueddu i fod ar gynefinoedd ucheldir a glaswelltir, yn wahanol i goetiroedd yr Alban. Mae angen strategaeth coed meryw yng Nghymru i reoli'r poblogaethau Meryw.

Pwyntiau trafod:

- Unrhyw arwydd o glefyd – dileu
- Dim plannu'n agos at boblogaethau sydd wedi ymsefydlu'n gryf i leihau'r risg o effeithio ar lawer o blanhigion unigol.
- Opsiynau plannu – rheoli'r ffynonellau planhigion
  - Defnyddio hadau a thyfu (tarddiad lleol).

- Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw feithrinfa, hyd yn oed os yw'n defnyddio hadau o darddiad lleol, yn rhydd o glefyd (e.e. beth arall sy'n cael ei dyfu yno)

- Arolygu'r poblogaethau sy'n fwyaf tebygol o ddangos haint, yn enwedig safleoedd y mae'r cyhoedd yn ymweld â nhw, e.e. Eryri (her y 3 chopa yn creu risg), poblogaethau arfordirol, a'r rhai sy'n agos at ffynonellau dŵr (peryglon symud).
- Hyfforddiant adnabod i wardeiniaid lleol?
- Mae Plantlife wedi cynhyrchu rhestr coed Meryw i Gymru – potensial i'w defnyddio fel llinell sylfaen i asesu pa mor agored i niwed yw poblogaethau ac felly ble mae angen gwaith rheoli fel plannu.
- Potensial i gysylltu â'r ymgyrchu Edrych, Golchi, Sychu e.e. golchi sgidiau ar her y 3 chopa.

**JS** i roi gwybod i'r grŵp am ddatblygiadau'n ymwneud â choed Meryw pan fydd angen.

5. **Unrhyw Fater Arall, Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf**: i'w penderfynu

| |
|---|
| **Cam gweithredu 8: HY** i drefnu dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf gyda JS a HB |

**Ymweliad Safle**: Ymweliad grŵp â Fferm Berthlwyd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Bannau Brycheiniog. Ymunodd staff o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, tîm lleol CNC ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog â'r grŵp.

*Mae Berthlwyd yn fferm arbennig iawn gydag amrywiaeth o gynefinoedd cyfoethog a diddorol. Dyma'r man perffaith i ystyried a thrafod materion yn ymwneud â rheoli glaswelltiroedd a hefyd â ffermio tirwedd gymhleth, sy'n gyforiog o natur. Mae'r fferm hefyd yn lle gwych i ystyried sut y gallwn ni fonitro nifer o gynefinoedd gyda llai o adnoddau a sut y gallwn fwydo'r canlyniadau yn ôl i'r system ffermio. Edrychodd y grŵp ar amryw o weirgloddiau a chaeau glaswelltir corsiog/dolydd ffen, gan ganolbwyntio ar faterion rheoli a monitro.*

Ein diolch i Joe Daggett a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.







